



# Traddodiad Barddol – CA5

## Tasg 6: Beth yw barddoniaeth?

1. Darllenwch baragraff cyntaf yr adran ‘Y Grefft Farddol’ ar dudalen 14 *Y Traddodiad Barddol*. Mae’n agor gyda dyfyniad gan y bardd o Ffrainc, Mallarmé, sy’n ceisio diffinio beth yw barddoni.
2. Dewch o hyd i ddyfyniadau gan bobl eraill sydd wedi ceisio crisialu beth sy’n gwneud cerdd dda neu beth yw ystyr barddoni.
3. Trafodwch y dyfyniadau hyn. Ydych chi’n cytuno?
4. Ceisiwch roi mewn brawddeg fachog sut byddech chi’n diffinio ‘barddoni’ neu ‘barddoniaeth’.

Dyma rai allan o’r *Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg*.

Llwyd, A. (1988) *Y Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg*, Gwasg Gomer: Llandysul

- ‘Barddoniaeth ydyw’r gwrthwyneb i oferedd. Rhaid i fardd wrth ddiben’ – John Eilian (Llwyd, A. t. 165)
- ‘I’r neb a greddo fod teimlad a phrofiad cynhyrfus yn unig sail barddoniaeth, ni ddetgly Cerdd Dafod fyth ei chyfrinach. Byd athroniaeth yw ei byd hi, nid byd profiad’ – Saunders Lewis (Llwyd, A. t. 194)
- ‘Beth yw bardd onid ei barabl?’ – R. Williams Parry (Llwyd, A. t. 233)
- ‘Camp bardd yw dywedyd y peth cyffredin yn rhyfeddol a’r anghyffredin yn wyrthiol’ – Iorwerth Peate (Llwyd, A. t. 241)

A dyma rai adnabyddus gan bobl y tu hwnt i Gymru:

“Genuine poetry can communicate before it’s understood” – T. S. Eliot, bardd yn wreiddiol o’r Unol Daleithiau

“Je suis un mensonge qui dit toujours la vérité” – ‘Celwyddgi wyf i sydd bob amser yn dweud y gwir’, Jean Cocteau, bardd o Ffrainc

“Poetry: the best words in the best order” – Samuel Taylor Coleridge, bardd o Loegr